

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	13 HYDREF 2016
TEITL:	YMATEB Y CYNGOR I'R DDOGFEN YMGYNGHORI: MILIWN O SIARADWYR ERBYN 2050
AWDUR:	DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR
PWRPAS YR ADRODDIAD	Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni'r rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio barn yr aelodau ar y ddogfen ymgynghori : Miliwn o siaradwyr erbyn 2050, gan dderbyn unrhyw sylwadau ychwanegol ar fy ymateb drafft i'r ddogfen ymgynghori ar ran Cyngor Gwynedd.

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni'r rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir.

2. DOGFEN YMGYNGHORI: *MILIWN O SIARADWYR ERBYN 2050*

- 2.1 Ar 1 Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori: *Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr erbyn 2050*. Mae'r cyfnod ymgynghori yn ymestyn hyd at 31 Hydref 2016.
- 2.2 Mae'r ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, gan fanylu erbyn y flwyddyn 2050 y bydd: *'yr iaith Gymraeg yn ffynnu, gyda nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn. Mae'n naturiol ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, ac ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad diwylliannol ac economaidd*.
- 2.3 Er mwyn gwireddu nod y strategaeth o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod 6 maes gweithredu allweddol:
1. Cynllunio a pholisi iaith
 2. Normaleiddio
 3. Addysg

4. Pobl
5. Cefnogi
6. Hawliau

Ceir copi o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad 1.

3. FY YMATEB DRAFFT I'R DDOGFEN YMGYNGHORI AR RAN CYNGOR GWYNEDD

- 3.1 Fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, rwyf wedi llunio ymateb drafft i'r ddogfen ymgynghori ar ran y Cyngor. Gweler copi o'r ymateb drafft yn Atodiad 2.
- 3.2 Rwyf yn awyddus i ganfod barn aelodau'r Pwyllgor Iaith ar y ddogfen ymgynghori, ac yn yr un modd, yn awyddus i dderbyn unrhyw sylwadau ychwanegol i'w cynnwys fel rhan o ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori.
- 3.3 Yn dilyn derbyn sylwadau aelodau'r Pwyllgor Iaith, byddaf yn diwygio'r ymateb, ac yn dilyn hynny, caiff fy ymateb drafft ei gyflwyno gerbron y Tim Arweinyddiaeth ar 18 Hydref 2016, cyn ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru.

4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- drafod cynnwys y ddogfen ymgynghori: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
- gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol i'w cynnwys fel rhan o fy ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar ran Cyngor Gwynedd.